

# Gwresogi ac Arbed

Tystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer Cais am Grant Ynni



TYSTIOLAETH ARIANNOL SYDD EI HANGEN GAN BOB  
AELOD O'R AELWYD


- Cyfriflen banc ar gyfer eich cyfrif cyfredol (3 mis) – dim ond angen ei chyflwyno pan mae eich cyflog yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r cyfrif er mwyn dilysu hynny os nad ydych chi'n cyflwyno cyfloglenni neu dystiolaeth arall sydd wedi'i nodi uchod.
- Eiddo - os ydych chi'n berchen ar eiddo arall nad ydych chi'n byw ynddo, gofynnwn eich bod chi'n darparu tystiolaeth o brisiad diweddar ac yn nodi gwerth unrhyw forgais sy'n weddill (os yw hynny'n berthnasol)
- Cyflogau (cyfloglenni 3 mis neu 5 wythnos)
- Pensiwn (y wladwriaeth, galwedigaethol a phreifat) – darparwch lythyr yn cadarnhau faint rydych chi'n ei dderbyn)
- Incwm yr Adran Gwaith a Phensiynau e.e. Lwfans Byw i'r Anabl, Credyd Pensiwn, Credyd Cynhwysol – tystiolaeth o'r llythyr diweddaraf rydych chi wedi'i dderbyn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau neu gyfriflen banc yn dangos taliadau
- Benthyciadau myfyrwyr (cadarnhad o swm y benthyciad ac ad-daliadau)
- Budd-dal plant neu unrhyw daliadau cynnal a chadw
- Tystiolaeth o daliadau morgais neu rent (ar ffurf cyfriflen banc, llythyr morgais neu gytundeb tenantiaeth)
- Tystiolaeth o unrhyw arbedion (yn cynnwys ISAs, cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu, cyfrifon y Swyddfa Bost, blwydd-dal, stociau a chyfranddaliadau, bondiau premiwm ac arbedion a buddsoddiadau cenedlaethol). Darparwch gyfriflen banc diweddar neu lythyr balans/prisiad banc.


Ac unrhyw incwm arall rydyn chi'n ei dderbyn sydd heb ei nodi uchod.


\*Dylai'r dystiolaeth rydych chi'n ei darparu gael ei dyddio o fewn y mis diwethaf, oni bai eich bod chi wedi cytuno fel arall gyda'r garfan Gwresogi ac Arbed.

Cyflwynwch yr holl dystiolaeth berthnasol ar  
gyfer eich cais drwy'r post neu e-bost.

\*Nodwch taw chi sy'n gyfrifol am unrhyw ddogfennau rydych chi'n  
eu hanfon aton ni.

 [gwresogiacarbed@rctcbc.gov.uk](mailto:gwresogiacarbed@rctcbc.gov.uk)

 01443 281136

 Y Garfan Gwresogi ac Arbed, Llawr 2, Tŷ Sardis, Heol Sardis,  
Pontypridd, CF37 1DU



# Gwresogi ac Arbed

Tystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer y Cais am Grant Ynni





**TYSTIOLAETH O UNRHYW GYFLYRAU IECHYD OS OES GYDAG UNRHYW AELOD O'R AELWYD UNRHYW UN O'R CANLYNOL - GOFYNNWN EICH BOD CHI'N DARPARU CADARNHAD (LLYTHYR DIAGNOSIS, APWYNTIAD MEWN CLINIG NEU DDILYSIAD GAN EICH MEDDYG TEULU)**


- 85 oed a hŷn
- Plant o dan 5 oed a mamau beichiog
- Clefyd resbiradol (Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, asthma)
- Clefyd cardiofasgwlaidd (e.e. clefyd isgemig y galon, clefyd cerebro-fasgwlaidd)
- Afiechyd meddwl cymedrol i ddifrifol (e.e. sgitsoffrenia, anhwylder deubegwn)
- Camddefnyddio Sylweddau
- Dementia, clefydau niwrobiologol a chysylltiedig (e.e. ffibromyalgia, enseffalomyelitis myalgic ('ME'))
- Salwch terfynol (e.e. Cancr)
- Symudedd cyfyngedig
- Clefydau'r Hemoglobin (clefyd y cryman-gell, thalasaemia)
- Anabledau Dysgu Dwys
- Afiechydon hunanimiwn a diffyg imiwnedd (e.e. lupus, enseffalomyelitis myalgic ('ME'), clefyd y siwgr, HIV)

Cyflwynwch yr holl dystiolaeth berthnasol ar gyfer eich cais drwy'r post neu e-bost.

\*Nodwch taw chi sy'n gyfrifol am unrhyw ddogfennau rydych chi'n eu hanfon aton ni

 [gwresogiacarbed@rctcbc.gov.uk](mailto:gwresogiacarbed@rctcbc.gov.uk)

 01443 281136

 Y Garfan Gwresogi ac Arbed, Llawr 2, Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU

